**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**18/10/2018 NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol. Datganwyd cydymdeimlad â'r Gyngh. Mair Jones ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gynghorwraig Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cynghorydd Gareth Owen (Is-Gadeirydd);
Y Cynghorydd John Jones; Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Non Jones; Y Gynghorwraig Clare Hughes; Y Cynghorydd Doug Rowbotham; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Wil Lewis.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, y canlynol:

**4.1** **Ymddygiad gwrthgymdeithasol**: bu 3 digwyddiad; rasio ceir ar fynydd Ffair Rhos a dau ddigwyddiad yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol.

**4.2** **Bu anghytundeb rhwng cymdogion penodol** yn Ffair Rhos yn ystod mis Medi.

**4.3** **Achoswyd difrod i beiriannau** Coedwigaeth.

**4.4** **Mis codi ymwybyddiaeth trosedd casineb**
Trosedd casineb yw trosedd sy'n digwydd i rywun oherwydd pwy ydyn nhw. Mae hyn yn cynnwys: galw enwau; bwrw a dyrnu; rhywun yn gwneud hwyl am eich pen; bwlio; rhywun yn codi ofn arnoch; cael eich eiddo wedi'i ddwyn neu ei ddifrodi. Gall trosedd casineb ddigwydd i rywun oherwydd: hil; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol; canfyddiad rhywun o'i ryw; anabledd, gan gynnwys anabledd dysgu, anabledd corfforol ac iechyd meddwl.
Dylid dweud wrth yr heddlu os oes trosedd casineb yn digwydd; drwy alw heibio'r Gorsaf Heddlu yn bersonol neu siarad â'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu Swyddog Heddlu Cymunedol. Gallwch ddweud wrth yr heddlu am drosedd neu ddigwyddiad sydd wedi digwydd wrth alw 101. Gellir cysylltu â Llinell Cymorth i'r Ddioddefwyr – Rhadffôn 0300 30 31 982. **Ar-lein:** Gweld yn Glir: report-it.org.uk
**Cymorth i Ddioddefwyr**: www.reporthate.victimsupport.org.uk. Medrwch yn ogystal gysylltu â grwpiau cymorth yn eich ardal.

**4.5** **Sefyllfa Gyffuriau**: nid oedd adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa gyffuriau'r ardal ar gael ar hyn o bryd.

**4.6** **Gofynnwyd, ym mha gam o'r ymchwiliad**, yr hysbysir y cyhoedd o'r drosedd. Nid yw cofnodion yr heddlu yn rhan o'r system llys, ac ni ragdybir bod dogfennau fel adroddiadau arestio neu adroddiadau troseddau / digwyddiadau a gedwir gan yr heddlu'n agored i'r cyhoedd fel cofnodion y llys.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 20fed O Fedi 2018**

**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. John Jones) **EILIWYD** (Y Cyngh. John Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 20fed o Fedi 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones arwahan i Gofnod 7.9.2: …. John Morgan… Dylai ddarllen John *Jenkins.*

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. ***Anfonwyd cais pellach am wybodaeth dan law'r Cyngor Sir. Dim Datblygiadau i'w hadrodd.***

**7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**

Gwnaeth y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.3 Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned:** Parheir â'r drafodaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2018**: wedi cymryd lle yn ystod Mehefin 2018. **Cytunwyd:** Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn gwneud trefniadau i atgyweirio'r rheiliau a hefyd yn ceisio dod o hyd i grantiau ar gyfer offer addas ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau.

**7.5 Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines Elisabeth 11**: i arddangos plac gerllaw'r goeden Dderwen. Mae Mr Bennett yn ymwneud â'r dasg (dwy-ieithog*).*

**7.6 Glanhau a Thrwsio'r Gofeb Rhyfel,** Ponthrydfendigaid: ystyriwyd y dyfynbrys i drwsio'r gofeb a'i ddwyn yn ôl i "safon arddangos" gan Kieran Elliott yn ystod cyfarfod cynt £3,548.32 (heb ei gofrestru ar gyfer TAW). Adferodd Cadwraeth Elliott Ryder y Gofgolofn wyth mlynedd yn ôl. Cysylltodd y Gyngh. Mair Jones â James Memorials Cyf, fel y'i trefnwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol, i ofyn am ddyfynbris i lanhau'r ysgrif aur ac ati, yr arysgrifau wedi'u graffu ac i adnewyddu'r gofeb rhyfel cyn Gwasanaeth Sul y Cofio o'r 11eg Tachwedd 2018.

Derbyniodd dirprwyaeth y Cyngor Cymuned y Dyfyniad a gyflwynwyd gan James Memorials Cyf ar ôl y cyfarfod misol diwethaf o'r 20fed Medi sef £1,995 + TAW; hysbyswyd James Memorials Cyf sydd wedi cychwyn ar y gwaith.

Mynegodd Cadwraeth Elliott Ryder gonsyrn mewn perthynas ag effaith hirdymor y defnydd o sodiwm-hypochlorite, i lanhau'r Gofeb. Aeth rhai Cynghorwyr i'r afael â'r pryder hwn gyda Mr Elliott. Cytunwyd y byddai Cynghorwyr yn asesu'r gwaith a wnaed ac i hysbysu'r Pwyllgor, os yn briodol.

**7.7 Gwasanaeth Sul y Cofio 11.11.2018 ger y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid am 10.30am i nodi canmlwyddiant terfyn y Rhyfel Byd Cyntaf.**

**7.7.1 Roedd y Cyngh. John Jones a'r Cyngh. Ifan Davies** wedi cyfarfod â'r Parch. Aled Lewis i drafod rhaglen y Gwasanaeth. Dosbarthir trefn y Gwasanaeth o flaen llaw. (Cyngh. John Jones).

**7.7.2 Cytunodd Mr John Jenkins, Lledrod,** i gyflawni rôl Biwglwr unwaith eto eleni.

**7.7.3 Cysylltodd y Clerc â mudiadau'r Pentref** i holi tybed a hoffai cynrychiolydd o bob sefydliad osod torch. Bydd y Cyngh. John Jones yn ymgymryd â rôl Cadlywydd ar y diwrnod ac yn archebu torch ar ran sefydliadau.

**7.7.4 Ysgol y Bont -** bydd y côr yn gwneud cyfraniad.

**7.7.5 Bydd rhai Cynghorwyr Cymuned** yn cymryd rhan.

**7.8 Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis,** Cyngor Sir Ceredigion, yn ystod y cyfarfod diwethaf, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y llwybr cerdded cyhoeddus, a arferai rhedeg trwy darn o dir a elwir yn Glan-yr-Afon. Cytunwyd bod Cynghorwyr yn ymweld â'r ardal dan sylw, yn ystod yr haf i geisio gwybodaeth. *Dim Datblygiadau i'w Hadrodd.*

**7.9 Adroddwyd yn ystod y cyfarfod cynt bod beiciau / cerbydau'n teithio** ar gyflymder gormodol drwy'r Pentref. Cytunwyd i brynu arwydd yn datgan, "Gyrrwch yn ofalus drwy'r Pentref" (dwyieithog). *I geisio pris.*

**7.10 Y Cynghorydd Clare Hughes** wedi ei holi gan rai pobl ifanc y pentref tybed a ellid defnyddio darn o dir, o fewn y pentref at ddibenion beicio. Ar hyn o bryd, nid oes ardal o'r fath ar gael ac ystyriwyd bod y brif ffordd yn anniogel. Gallai'r tir hefyd fod yn addas fel man hamdden i blant. Trafodwyd y mater yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned, sef Dydd Llun 25fed Mehefin 2018 am 8pm yn Neuadd Pantyfedwen. Anfonwyd llythyr at Glwb Pêl-droed y Bont, Pwyllgor Pafiliwn y Bont a Phwyllgor Neuadd Pantyfedwen. Ceisiodd Pwyllgor Pafiliwn y Bont eglurhad pellach, e.e. yr yswiriant a phwy fyddai'n gyfrifol am gynnal y darn o dir ac agor a chau gatiau ac ati. Hoffai Pwyllgor y Neuadd gael ei hysbysu o holl ddatblygiadau.
*Disgwylir ateb gan Glwb Pêl Droed y Bont.*

**7.11 Camfeydd: Llwybr cerdded sy'n arwain o'r Ysgol i Ffair Rhos:** Mae angen sylw ar 3 camfa, fel y codwyd gan Mrs N Jones yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Adroddwyd at sylw Mr Haydn Lewis, Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd, atgoffwyd y Cyngor Sir o gais y llynedd sef, 4 camfa sy'n rhedeg drwy'r parc carafanau; Lôn dywyll X1 camfa; Tynrhos i Tanrhydiau X1 camfa. *Disgwylir ateb.*

**7.12 Mainc wedi'i lleoli gyferbyn â 12/13** Maesydderwen angen ei thrwsio. Derbyniwyd dyfynbris o £200 i greu a ffitio mainc bren gan fod y fainc bresennol mewn cyflwr gwael. Byddai cyflenwi a ffitio mainc blastig oddeutu £400.
Ar y dechrau, derbyniwyd y Cynnig o £400 ond fe'i tynnwyd yn ôl pan ofynnwyd a ellid gosod mainc hefyd ger y Gofeb Rhyfel. Y Cynghorydd Sir Ifan Lloyd-Davies i glustnodi sylw i'r mater.

**7.13 Twll ger y Banc Botel:** i ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa cyn y cyfarfod nesaf.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Gwahardd parcio ar Stryd y Bont a Chyffordd Heol yr Abaty; Cyngor Sir Ceredigion (CSC). Cynhaliwyd cyfarfod safle**, rhwng dirprwyaeth y Cyngor Cymuned a Mr Tom Delph-Januirek CSC ar ddydd Mawrth 25ain Medi 2018; cytunwyd i dderbyn y Cynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ac i hysbysu'r unigolyn a oedd wedi cyflwyno'r llythyr, yn gwrthwynebu'r Gorchymyn:
Cyngor Sir Ceredigion (gwahardd a chyfyngu aros a llwytho a dadlwytho (unrhyw adeg) 2018 – CE58-F23 rhwng Talwrn/ Tŷ Ystrad a Chapel Rhydfendigaid ar ochr orllewinol; Stryd y Bont a Teifi View/Islwyn ar yr ochr ddwyreiniol.
Hysbysir y person dan sylw i gysylltu â Phwyllgor y Neuadd, i ddarganfod tybed a ellid ddarparu ardal barcio ar dir y Neuadd. Nid oedd gan yr eiddo dan sylw ac eiddo eraill yr ardal, ddarpariaeth parcio.

**8.2 Mae Adroddiad Blynyddol Drafft 2019/20 y** Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019-20 bellach wedi'i gyhoeddi ac mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Panel drwy ddilyn y ddolen ar gyfer ymgynghori ac mae ar gael ar ei wefan trwy'r ddolen gysylltiedig:
**AdroddiadBlynyddolDrafftPanelAnnibynnolCymruarGydnabyddiaethAriannol-Chwefror2019.**
Mae Adran 13 yn ymwneud yn benodol â Chyngor Cymuned a Thref.
Sylwadau i'w cyflwyno erbyn 27 Tachwedd 2018 IRPMailbox@gov.cymru.

**8.3 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Cyflog y Clerc**: £155.07

**9.2 Cyllid a Thollau EM**: £38.76

**9.3 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion**
Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.

**9.4 Grant Thornton: Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad 2017-18.** Nodwyd y sylwadau.

**9.5 Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol:** Mae angen hysbysu'r Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol am lwfansau a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyhoeddi'r wybodaeth ar Wefan Y Cyngor Cymuned. Hefyd, os na fydd yr Aelodau am dderbyn lwfansau, dylent hysbysu Swyddog Priodol y Cyngor. (Mae'r Gyngh. Laura Jones, Mair Jones, Angharad Price Jones ac Alun Price-Jones wedi datgan nad ydynt am dderbyn y lwfans blynyddol o £150).

**1.** Erbyn y 30ain o Fedi 2018 bydd angen cyhoeddi cyfrifon Diwedd Blwyddyn ar-lein hyd yn oed os na chaiff y canlyniad ei gwblhau gan yr Archwilydd Allanol.

**2.** Taliadau i'r Cynghorwyr- angen cyhoeddi rhestr o daliadau i Gynghorau ar y Wefan erbyn y 30ain Medi 2018 ac anfon yr un rhestr at Banel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru, hyd yn oed os na wnaed unrhyw daliadau.

**9.6 Grant Thornton**: Archwiliad Allanol 2018 £270.90 (yn cynnwys TAW)

**9.7 Torri Glaswellt yn ystod Haf 2018**. D. Benjamin £1,150.

**9.8 Lleng Brydeinig:** Plethdorch £25.00.

**9.9 Sefyllfa Ariannol Bresennol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur:**

**3 Cyfrif:**

1. **Cyfrif Premiwm Busnes** £10.16
2. **Cyfrif Ysgoloriaeth** £379.53
3. **Cyfrif Cyfredol Busnes** - ar ôl holl daliadau Hydref 2018 wedi'u gwneud, yn weddill, £4,734.90 (heb gynnwys gwaith adnewyddu yn ymwneud â'r Gofeb Rhyfel). Disgwylir £2,380.23 fel y taliad terfynol "Praesept" CS Ceredigion ar yr 31.10.2018.
Tua £5,000 sy'n weddill (ar ôl taliad Coffa'r Rhyfel) ar gyfer Tachwedd, Rhagfyr 2018 a mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2019.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Cais Cynllunio: A180919**: Lleoliad: Tan y Ffordd, Ffair Rhos, Ystrad Meurig. Cynnig: Estyniad Unllawr i'r ochr a'r balconi. Ymgeisydd: Martin Glew. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Holodd y Cynghorydd Alun Price-Jones tybed a ellid** lleoli Mainc Goffa ger y Gofeb y Rhyfel, Pontrhydfendigaid. **PENDERFYNWYD** darganfod tybed a fyddai'n bosibl prynu 2 fainc (un i'w lleoli ym Maesydderwen a'r llall ger y Gofeb Rhyfel) erbyn Gwasanaeth Sul Cofio SEF 11eg Tachwedd 2018. (Cyngh. Sirol Ifan Lloyd Davies).

**11.2 Holodd y Cyng. Rowbotham** mewn perthynas â’r sefyllfa yn ymwneud â Phwll Nofio Tregaron, sydd wedi cau ei ddrysau. Roedd costau rhedeg y pwll wedi bod yn uchel. Dywedwyd bod yr Ymddiriedolwyr wedi cymryd gofal am Glwb Hamdden Tregaron. Ar hyn o bryd mae CS Ceredigion yn cynnal adolygiad o ddarpariaeth hamdden yn y Sir i gynnwys Pwll Nofio Tregaron.

**11.3 Cyflewyd y byddai'r Rali a drefnwyd ar gyfer yr 11eg Tachwedd 2018 ym Mhontrhydfendigaid** yn parchu cyfnod o dawelwch rhwng 10.50-11.10am er cof am y rhai a fu farw’n y Rhyfel.

**11.4 Cynhelir Digwyddiad "Come Dancing" i godi arian ar gyfer yr Ysgol Feithrin ar Ragfyr 1af 2018.** Disgwylir cyfraniad gan rai Cynghorwyr.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 9.10pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 15fed o Dachwedd 2018 at 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)